Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

## Ystadegau Medr

# Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2023 i Tachwedd 2025


**Dogfen gyfeiriol ystadegau swyddogol:** Sta/Medr/08/2026

**Dyddiad:** 26 Mawrth 2026

**Dynodiad:** Ystadegau swyddogol sydd wrthi’n cael eu datblygu

**E-bost:** ystadegau@medr.cymru


| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | **Dadansoddiad o gyrchfannau dysgwyr ar ôl gadael Blwyddyn 11, gyda dadansoddiadau yn ôl y math o addysg drydyddol, lefel astudio a nodweddion dysgwyr.** |
| **Thema:** | Chweched dosbarth, addysg bellach, prentisiaethau |
| **Ffynonellau:** | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)<br>Casgliad Data Ôl-16<br>Casgliad data gwybodaeth reoli wythnosol am bresenoldeb mewn ysgolion<br>Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)<br>Data Addysg wedi’u Paru (MED) |


Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Crynodeb

Mae'r dadansoddiad hwn yn adeiladu ar yr hyn a gyhoeddwyd yn flaenorol fel rhan o erthygl ystadegol Llywodraeth Cymru Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws (Covid-19): Awst 2020 i Orffennaf 2021. Ei nod yw darparu darlun wedi'i ddiweddaru o ddilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol.

Mae'r carfannau Blwyddyn 11 yn y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar yr holl ddysgwyr a oedd wedi eu cofrestru ym Mlwyddyn 11 mewn ysgolion uwchradd, canol ac arbennig a gynhelir yng Nghymru. Mae'r ffigurau ar gyfer 2025/26 yn rhai dros dro gan eu bod yn seiliedig ar ddata yn ystod y flwyddyn. Eglurir hyn ymhellach yn yr adran ar gyfyngiadau.

Diffinnir addysg drydyddol yn y dadansoddiad hwn fel darpariaeth sydd bellach yn cael ei chyllido a'i rheoleiddio gan Medr. Mae hyn yn cwmpasu darpariaeth a gyllidir yn gyhoeddus sy'n cael ei chyflwyno gan unedau chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir, colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau yng Nghymru.

Mae hyn yn newid o'r datganiad blaenorol lle defnyddiwyd diffiniad ychydig yn fwy eang o addysg drydyddol a oedd yn cynnwys dysgu ôl-16 mewn ysgolion arbennig a gynhelir a rhaglenni cyflogadwyedd Twf Swyddi Cymru+ / Hyfforddeiaethau Llywodraeth Cymru. Mae dadansoddiad o ddilyniant o Flwyddyn 11 i'r mathau hyn o ddarpariaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys cyrchfannau trydyddol mewn ysgolion annibynnol, darparwyr dysgu annibynnol neu arbenigol eraill, dysgu oedolion yn y gymuned (gan gynnwys dysgu a ddarperir gan golegau), addysg drydyddol y tu allan i Gymru nac unrhyw ddarpariaeth EOTAS (Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol) ôl-16 arall.

### Prif bwyntiau

- Roedd cyfran dros dro'r dysgwyr a aeth ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol yn 85% yn 2025/26, a hithau'n ddigyfnewid ers y 2 flynedd flaenorol.
- Fe wnaeth nifer y dysgwyr sy'n camu ymlaen gynyddu'n gyson rhwng 2018/19 a 2024/25 cyn gostwng yn 2025/26, yn unol â newidiadau i feintiau carfannau Blwyddyn 11.
- O'r dysgwyr a aeth ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol:
    - Mae cyfran gynyddol yn mynd ymlaen i golegau addysg bellach, gyda gostyngiad cyfatebol yn y rhai sy'n mynd ymlaen i unedau chweched dosbarth.
    - Mae cyfran y dysgwyr sy'n astudio ar lefel 3 (gan gynnwys Safon Uwch Gyfrannol) yn dal i leihau.
- Ceir gwahaniaethau mewn dilyniant rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Roedd y gyfran a aeth ymlaen yn uwch ar gyfer dysgwyr sydd:
    - Yn fenywaidd
    - Yn byw yn y cymdogaethau lleiaf amddifadus
    - Ddim yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim
    - Ddim yn cael mynediad at ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol
    - O gefndiroedd Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig, neu Ddu, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd
    - Yn gymwys neu'n rhugl ar ôl caffael Saesneg fel iaith ychwanegol

    - Yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 11 neu’n rhugl yn y Gymraeg.
- Roedd amrywiad sylweddol yn y math o ddarpariaeth a lefel y ddarpariaeth addysg drydyddol rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr ac yn ddaearyddol.


# Cynnwys

Crynodeb....1
Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol....4
Math o ddarparwr a darpariaeth addysg drydyddol....6
Lefel y ddarpariaeth addysg drydyddol....7
Dadansoddiad yn ôl nodweddion....9
Dysgwyr sy’n gadael addysg drydyddol heb gwblhau eu rhaglen ddiweddaraf....16
Atodiad A....17
Ansawdd a methodoleg....18

## Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol

**Mae cyfran y rhai ym Mlwyddyn 11 sy'n mynd ymlaen i addysg drydyddol wedi aros yn gyson**

Ffigur 1: Cyfran y rhai ym Mlwyddyn 11 a aeth ymlaen i addysg drydyddol, yn ôl blwyddyn academaidd, rhwng mis Awst 2014 a mis Tachwedd 2025





Disgrifiad: Mae cyfran y rhai ym Mlwyddyn 11 sy'n mynd ymlaen i addysg drydyddol wedi bod yn weddol gyson dros yr 12 mlynedd a gwmpesir gan y dadansoddiad hwn. Mae'r gyfran dros dro ar gyfer 2025/26 yn 85%, yr un fath ag yn y 2 flynedd academaidd flaenorol, i lawr o frig o 88% yn 2020/21.

[p]: Dros dro.

Data yn Nhabl 1 y daenlen sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn

**Fe wnaeth nifer y dysgwyr sy'n camu ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol gynyddu bob blwyddyn rhwng 2018/19 a 2024/25**

Ffigur 2: Nifer y dysgwyr a aeth ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, yn ôl blwyddyn academaidd, rhwng mis Awst 2014 a mis Tachwedd 2025



Disgrifiad: Fe wnaeth nifer y dysgwyr sy'n camu ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol ostwng o 29,025 yn 2014/15 i isafbwynt o 25,815 yn 2018/19. Wedyn fe gynyddodd i 29,165 yn 2024/25, y ffigwr uchaf dros y 12 mlynedd a gwmpesir gan y dadansoddiad hwn. Mae'r ffigwr dros dro ar gyfer 2025/26 wedi gostwng 2% o'i gymharu â 2024/25 ond fe allai newid ychydig pan fydd data terfynol ar gyfer y flwyddyn academaidd lawn ar gael.

[p]: Dros dro.

Data yn Nhabl 1 y daenlen sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn


Er bod cyfran y dysgwyr sy'n camu ymlaen wedi aros yn sefydlog, mae nifer y dysgwyr sy'n camu ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol wedi newid yn unol â meintiau carfannau Blwyddyn 11.

## Math o ddarparwr a darpariaeth addysg drydyddol

Mae’r dadansoddiad yn yr adran hon yn seiliedig ar raglen astudio addysg drydyddol gychwynnol y dysgwr. Gall dysgwyr newid eu math o ddarparwr neu ddarpariaeth addysg drydyddol yn ddiweddarach.

**Mae mwy o ddysgwyr yn mynd ymlaen i golegau addysg bellach (AB) ar ôl Blwyddyn 11**

Ffigur 3: Cyfran y dysgwyr a aeth ymlaen ym mhob categori darparwr/darpariaeth, yn ôl blwyddyn academaidd, rhwng mis Awst 2014 a mis Tachwedd 2025




Disgrifiad: Yn 2014/15, roedd cyfran y dysgwyr a gamodd ymlaen ac a aeth i leoliad chweched dosbarth yn 51%, ychydig yn fwy na’r gyfran a aeth i goleg AB (heb gynnwys y rhai a wnaeth brentisiaethau mewn coleg AB) ar 49%. Ers hynny, fe wnaeth y gyfran a aeth i leoliad chweched dosbarth leihau i 37% yn 2024/25 tra bo’r gyfran a aeth i goleg AB wedi cynyddu i 61%.

[p]: Dros dro.
[Nodyn 1] Ni ddangosir ffigyrau prentisiaethau ar gyfer 2014/15 a 2015/16 i osgoi datgelu pwy yw dysgwyr unigol, yn seiliedig ar niferoedd isel.

Data yn Nhabl 1 y daenlen sy’n cyd-fynd â’r datganiad hwn

Mae ffigyrau dros dro ar gyfer 2025/26 yn dangos cynnydd bach yn y gyfran a aeth ymlaen i golegau AB a hynny i 62%, tra bo’r gyfran a aeth ymlaen i leoliadau chweched dosbarth yn dal i fod yn 37%.

Mae’r gyfran sy’n gwneud prentisiaeth wedi aros yn sefydlog rhwng 2% a 3% trwy gydol y cyfnod a gwmpesir gan y dadansoddiad hwn.


## Lefel y ddarpariaeth addysg drydyddol

Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn seiliedig ar raglen astudio addysg drydyddol gychwynnol y dysgwr. Gall dysgwyr newid lefel eu rhaglen astudio addysg drydyddol yn ddiweddarach.

Cyfrifir pob dysgwr unwaith. Byddai dysgwr sy'n wneud rhaglen astudio lefel 3 ynghyd â dysgu lefel 2 atodol (er enghraifft, rhaglen safon UG ynghyd ag ailsefyll arholiadau TGAU) yn cael ei gyfrif yn y categori lefel 3 ac nid lefel 2.

### Mae cyfran y dysgwyr sy'n camu ymlaen i astudio ar lefel 3 yn parhau i leihau

Ffigur 4: Cyfran y dysgwyr a aeth ymlaen yn ôl lefel astudio, yn ôl blwyddyn academaidd, rhwng mis Awst 2014 a mis Tachwedd 2025




Disgrifiad: Mae ffigyrau dros dro ar gyfer 2025/26 yn dynodi mai 63% yw'r gyfran o'r rhai a aeth ymlaen i addysg drydyddol a aeth ymlaen i astudio ar lefel 3 (49% yn astudio safon UG, 14% yn astudio mathau eraill o ddarpariaeth lefel 3). Mae'r gyfran hon wedi lleihau'n raddol o 72% yn 2020/21.

[p]: Dros dro. Mae'r ffigyrau hyn wedi'u hamcangyfrif yn rhannol. Gweler yr adran fethodoleg am esboniad.

Data yn Nhabl 2 y daenlen sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn

Gall y newidiadau i drefniadau arholiadau ac asesu yn ystod y pandemig a'r ffaith bod mwy o ddysgwyr wedi cael y graddau TGAU yr oedd eu hangen i gael mynediad at raglenni safon UG fod wedi effeithio ar gyfraddau ar gyfer 2020/21 a 2021/22 yn arbennig.

O ran y ffigyrau dros dro, mae 49% o ddysgwyr a gamodd ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol yn 2025/26 yn astudio Safon Uwch Gyfrannol. Dyma'r gyfran leiaf a

welwyd yn y cyfnod a gwmpesir gan y dadansoddiad hwn ac mae i lawr o 60% yn 2014/15. Fe leihaodd y gyfran hon rhwng 2014/15 a 2019/20. Wedyn fe gynyddodd dros dro yn ystod y pandemig cyn parhau i leihau. Mae’r gyfran sy’n camu ymlaen i fathau eraill o astudio ar lefel 3 wedi aros yn sefydlog dros y degawd diwethaf, sef rhwng 14% a 15%.

Mae’r gyfran a gamodd ymlaen i ddarpariaeth drydyddol lefel 2 yn 2024/25, a’r gyfran dros dro yn 2025/26, yn 19%, sef y fwyaf dros y cyfnod ac i fyny 7 pwynt canran o’i gymharu â 2020/21.

Mae’r cyfrannau sy’n camu ymlaen i ddarpariaeth drydyddol lefel 1 a mathau eraill o ddarpariaeth drydyddol wedi cynyddu ychydig ers 2020/21 hefyd. Mae’r categori ‘arall’ yn cynnwys lefel mynediad, Sgiliau Byw’n Annibynnol a darpariaeth AB ran-amser yn bennaf.


## Dadansoddiad yn ôl nodweddion

Mae'r nodweddion a gyflwynir yma'n seiliedig ar y rhai a gofnodwyd ar gyfer y dysgwr fel rhan o'i gofnod CYBLD Blwyddyn 11. Adroddir ar ganfyddiadau penodol sydd o ddiddordeb ond mae data llawn ar gael yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn.

### Rhyw

**Mae cyfran uwch o ddysgwyr benywaidd yn mynd ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol**

Ffigur 5a: Cyfran y dysgwyr a aeth ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol yn ôl rhyw, yn ôl blwyddyn academaidd, rhwng mis Awst 2014 a mis Tachwedd 2025




Disgrifiad: Mae cyfran y dysgwyr benywaidd sy'n mynd ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol wedi bod yn gyson uwch na chyfran y dysgwyr gwrywaidd trwy gydol y cyfnod a gwmpesir gan y dadansoddiad hwn. Mae'r bwlch wedi bod yn amrywio rhwng 3 a 4 pwynt canran.

[p]: Dros dro.

Data yn Nhabl 1 y daenlen sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn

O'r dysgwyr a aeth ymlaen i addysg drydyddol yn 2024/25, fe astudiodd 70% o ddysgwyr benywaidd ar lefel 3 o'i gymharu â 58% o ddysgwyr gwrywaidd. Aeth cyfran uwch o ddysgwyr gwrywaidd ymlaen i astudio dysgu galwedigaethol mewn coleg AB neu ddarpariaeth dysgu seiliedig-ar-waith.


### Degradd amddifadedd cymdogaeth gartref y dysgwr

Roedd cyfran y dysgwyr sy'n byw yn yr 20% o gymdogaethau lleiaf amddifadus a aeth ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol yn uwch na dysgwyr eraill. Roedd y gyfradd yn is ymhlith dysgwyr sy'n byw yn yr 20% o gymdogaethau â'r mwyaf o amddifadedd.

Ceir gwahaniaethau mwy o lawer ar draws y degraddau amddifadedd yn y math o ddarparwr a darpariaeth addysg drydyddol.

**Mae cyfran fwy o ddysgwyr o ardaloedd amddifadus yn mynd ymlaen i golegau AB**

Ffigur 5b: Cyfran y dysgwyr a aeth ymlaen ym mhob categori darparwr/darpariaeth, yn ôl cwintel amddifadedd, blwyddyn academaidd 2024/25




Disgrifiad: O'r dysgwyr a aeth ymlaen i addysg drydyddol yn 2024/25, mae'r gyfran a aeth i'r chweched dosbarth mewn ysgolion yn amrywio o 25% o ddysgwyr sy'n byw yn y 20% o gymdogaethau mwyaf amddifadus i fyny i 53% o ddysgwyr sy'n byw yn y 20% o gymdogaethau lleiaf amddifadus. Mae'r gyfran a aeth i golegau AB yn amrywio o 73% o ddysgwyr a oedd yn byw yn yr 20% o gymdogaethau mwyaf amddifadus i lawr i 45% o ddysgwyr a oedd yn byw yn yr 20% o gymdogaethau lleiaf amddifadus.

Data yn Nhabl 1 y daenlen sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn


Ceir patrymau tebyg yn ôl lefel astudio. O'r dysgwyr a aeth ymlaen i addysg drydyddol yn 2024/25, mae'r gyfran a oedd yn astudio ar lefel 3 yn amrywio o 50% o ddysgwyr sy'n byw yn y 20% o gymdogaethau mwyaf amddifadus i fyny i 78% o ddysgwyr sy'n byw yn y 20% o gymdogaethau lleiaf amddifadus. Mae'r gyfran sy'n astudio ar lefel 2 neu is yn amrywio o 47% o ddysgwyr sy'n byw yn y 20% o gymdogaethau mwyaf amddifadus i lawr i 21% o ddysgwyr sy'n byw yn y 20% o gymdogaethau lleiaf amddifadus.

Roedd dysgwyr sy'n byw yn y cymdogaethau mwyaf amddifadus hefyd yn fwy tebygol o adael eu rhaglen addysg drydyddol heb ei chwblhau.

## Cymhwystra i gael Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd)

### Mae cyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen yn is ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael PYADd

Ffigur 5c: Cyfran y dysgwyr a aeth ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol yn ôl cymhwystra i gael PYADd, yn ôl blwyddyn academaidd, rhwng mis Awst 2014 a mis Tachwedd 2025




Disgrifiad: Mae cyfran y dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael PYADd sy'n mynd ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol wedi bod yn gyson uwch na chyfran y dysgwyr sy'n gymwys i gael PYADd trwy gydol y cyfnod a gwmpesir gan y dadansoddiad hwn. Mae'r bwlch wedi cynyddu o 10 pwynt canran yn 2022/23 i 12 yn 2023/24. Fe arhosodd ar 12 pwynt canran yn 2024/25 ond yn ôl y ffigyrau dros dro mae'n 9 pwynt canran yn 2025/26, y lleiaf yn ystod y cyfnod.

[p]: Dros dro.

Data yn Nhabl 1 y daenlen sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn

O'r dysgwyr a gamodd ymlaen i addysg drydyddol yn 2024/25, fe aeth cyfran fwy o ddysgwyr a oedd yn gymwys i gael PYADd ymlaen i golegau AB neu brentisiaethau, ac fe aeth cyfran lai ymlaen i'r chweched dosbarth mewn ysgolion. Dim ond 37% o ddysgwyr sy'n gymwys i gael PYADd aeth ymlaen i astudio ar lefel 3, o'i gymharu â 69% o'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael PYADd.

Roedd dysgwyr sy'n gymwys i gael PYADd hefyd yn fwy tebygol o adael eu rhaglen addysg drydyddol heb ei chwblhau.

## Darpariaeth addysg addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Gwelwyd cyfraddau dilyniant uwch o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol ymhlith dysgwyr heb unrhyw ddarpariaeth AAA neu ADY. Yn 2024/25, 67% o ddysgwyr â darpariaeth AAA neu ADY wedi mynd ymlaen o'i gymharu â 87% o ddysgwyr heb unrhyw ddarpariaeth AAA neu ADY.

Mae cyfran y dysgwyr â darpariaeth AAA neu ADY sy'n symud ymlaen i addysg drydyddol wedi bod yn gostwng ers 2020/21. Daeth Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod ADY) a rheoliadau i rym ar ddechrau blwyddyn academaidd 2021/22.

Ers hynny, mae dysgwyr wedi symud o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) i'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Yn 2021/22, roedd pob dysgwr yng ngharfan Blwyddyn 11 y flwyddyn flaenorol wedi'i gofnodi o dan y system AAA. Mae cyfran y garfan Blwyddyn 11 a gofnodwyd o dan y system ADY wedi cynyddu bob blwyddyn ers hynny, hyd at 64% yn y garfan ddiweddaraf. Mae hyn yn debygol o fod yn ffactor mawr yn y gostyngiad yn y gyfradd dilyniant ers 2020/21. Mae nifer y disgyblion Blwyddyn 11 sydd â darpariaeth AAA neu ADY wedi gostwng dros y cyfnod hwn, ac mae carfannau mwy diweddar yn cynnwys cyfran fwy o ddysgwyr sydd â lefel uwch o anghenion cymorth. Eglurir hyn yn natganiad ystadegol Llywodraeth Cymru, [Canlyniadau cyfrifiad ysgolion](#).

Yn 2024/25, aeth cyfran uwch o ddysgwyr â darpariaeth AAA neu ADY ymlaen i golegau AB (84%) na'r rhai heb unrhyw ddarpariaeth AAA neu ADY (59%). Fe astudiodd cyfran lai o lawer o ddysgwyr â darpariaeth AAA neu ADY ar lefel 3 (27%) na dysgwyr heb unrhyw ddarpariaeth AAA neu ADY (67%).

Roedd dysgwyr ag AAA neu ADY yn fwy tebygol o adael eu rhaglen addysg drydyddol heb ei chwblhau.

## Ethnigrwydd

Roedd gan ddysgwyr o gefndiroedd Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig, neu Ddu, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd duedd i gael cyfraddau dilyniant uwch o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol dros y cyfnod a drafodir yn y dadansoddiad hwn.

Wrth edrych ar draws y grwpiau ethnig manwl, yn 2024/25 dysgwyr o gefndiroedd Bangladeshaidd oedd â'r gyfradd uchaf o ddilyniant, ond dysgwyr o gefndiroedd Sipsiwn, Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig oedd â'r gyfradd isaf. Roedd gan ddysgwyr o gefndiroedd Sipsiwn, Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig gyfradd dilyniant llawer is yn gyson drwy gydol y cyfnod a drafodir yn y dadansoddiad hwn.

Roedd amrywiad yn y math o ddarparwr addysg drydyddol, darpariaeth addysg drydyddol a'r lefel astudio rhwng grwpiau ethnig ymhlith dysgwyr a aeth ymlaen i addysg drydyddol yn 2024/25. Fe astudiodd 95% o ddysgwyr o gefndiroedd Tsieineaid ar lefel 3, gyda'r mwyafrif llethol yn gwneud safon UG. Fe astudiodd 33% o ddysgwyr o gefndiroedd Sipsiwn, Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig ar lefel 3, gydag oddeutu hanner y rhain yn gwneud safon UG.

Roedd llwybrau addysg bellach alwedigaethol a phrentisiaethau dysgu seiliedig-ar-waith yn fwy poblogaidd i ddysgwyr o grwpiau ethnig Gwyn neu Gymysg, Lluosog.

## Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL)

Mae cyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol yn nodweddiadol yn llawer is ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 11 sydd newydd ddechrau caffael Saesneg fel iaith ychwanegol. Yn 2024/25, 77% yw'r gyfran, o'i gymharu â 93% ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 11 a gategoreiddiwyd fel rhai sy'n rhugl mewn Saesneg fel iaith ychwanegol a 86% o ddysgwyr Blwyddyn 11 nad ydynt wedi caffael Saesneg fel iaith ychwanegol.

O’r dysgwyr a aeth ymlaen i addysg drydyddol yn 2024/25, roedd gwahaniaethau mawr yn y lefel astudio yn ôl categori Saesneg fel iaith ychwanegol. Fe wnaeth 38% o ddysgwyr a oedd newydd ddechrau caffael Saesneg fel iaith ychwanegol astudio ar lefel 3, o’i gymharu ag 86% o ddysgwyr a oedd yn rhugl mewn Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae dysgwyr a oedd yn gymwys neu’n rhugl mewn Saesneg fel iaith ychwanegol hefyd yn llai tebygol o adael addysg drydyddol heb gwblhau eu rhaglen astudio.


## Awdurdod lleol yr ysgol ym Mlwyddyn 11

Mae cyfran y dysgwyr sy’n mynd ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol yn amrywio yn ôl awdurdod lleol, ond effeithir ar gyfrannau ar gyfer awdurdodau lleol sy’n ffinio â Lloegr gan argaeledd data. Gweler yr adran cyfyngiadau am ragor o wybodaeth.

O’r dysgwyr a aeth ymlaen i addysg drydyddol yn 2024/25, roedd amrywiad sylweddol ar draws awdurdodau lleol ym math y darparwr a’r ddarpariaeth addysg drydyddol.

**Mae cyrchfannau addysg drydyddol yn amrywio rhwng awdurdodau lleol**

Ffigur 5d: Cyfran y dysgwyr a aeth ymlaen ym mhob categori darparwr/darpariaeth, yn ôl awdurdod lleol yr ysgol ym Mlwyddyn 11, blwyddyn academaidd 2024/25




Disgrifiad: Roedd cyfran y dysgwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgolion yn amrywio o 0% ar gyfer Blaenau Gwent i fyny i 70% ar gyfer Sir Fynwy. Roedd y gyfran mewn colegau AB yn amrywio o 28% ar gyfer Sir Fynwy i fyny i 99% ym Mlaenau Gwent. Mae'r mathau o ddarpariaeth addysg drydyddol sydd ar gael yn amrywio rhwng ardaloedd. Er enghraifft, nid oes unrhyw chweched dosbarth mewn ysgolion ym Merthyr Tudful na

Blaenau Gwent. Gall argaeledd data ar gyfer dysgwyr a aeth ymlaen i addysg drydyddol y tu allan i Gymru fod yn effeithio ar y cyfrannau ar gyfer Sir Fynwy (ac awdurdodau lleol eraill ar y ffin).

Data yn Nhabl 1 y daenlen sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn

Roedd amrywiad yn y lefel astudio hefyd. Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o ddysgwyr yn astudio ar lefel 3 yn 2024/25 oedd Bro Morgannwg gyda 74%. Yr awdurdod lleol â'r gyfran isaf oedd Wrecsam (49%).

## Y Gymraeg

Roedd gan ddysgwyr a oedd wedi eu cofrestru ym Mlwyddyn 11 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg gyfraddau dilyniant uwch i addysg drydyddol trwy gydol y cyfnod a gwmpesir gan y dadansoddiad hwn. Dylid nodi bod gan gyfran uwch o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog chweched dosbarth o'i gymharu ag ysgolion cyfrwng Saesneg. Gall fod gwahaniaethau demograffig rhwng dysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg o'u cymharu â dysgwyr eraill hefyd.

O'r dysgwyr a aeth ymlaen i addysg drydyddol yn 2024/25, aeth cyfran uwch o ysgolion cyfrwng Cymraeg i'r chweched dosbarth mewn ysgolion (52%) o'i gymharu â dysgwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg (34%), ysgolion Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg (44%) ac ysgolion dwyieithog (45%). Aeth 46% o ddysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg ymlaen i goleg AB o'i gymharu â 64% o ysgolion cyfrwng Saesneg.


Roedd dysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg hefyd yn fwy tebygol o astudio ar lefel 3 (72%) na dysgwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg (62%), ysgolion Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg (65%) ac ysgolion dwyieithog (67%).

Gwelwyd gwahaniaethau tebyg rhwng dysgwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg a'r rhai nad ydynt yn medru'r Gymraeg.

## Dysgwyr sy’n gadael addysg drydyddol heb gwblhau eu rhaglen ddiweddaraf

### Fe wnaeth cyfran lai o ddysgwyr lefel 3 adael eu rhaglen ddiweddaraf heb ei chwblhau

Ffigur 6: Cyfran y dysgwyr sy’n mynd ymlaen i addysg drydyddol ond yn gadael eu rhaglen ddiweddaraf heb ei chwblhau, yn ôl blwyddyn academaidd, rhwng mis Awst 2014 a mis Gorffennaf 2025




Disgrifiad: O’r dysgwyr a gamodd ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, roedd y gyfran a adawodd addysg drydyddol heb gwblhau eu rhaglen ddiweddaraf yn llai ar gyfer dysgwyr lefel 3 na lefelau eraill. Mae’r gyfran ar gyfer lefel 3 wedi lleihau o 9% yn 2021/22 i 4% yn 2024/25, yr isafbwynt dros y cyfnod a gwmpesir gan y dadansoddiad hwn.

[p]: Dros dro.


Data yn Nhabl 2 y daenlen sy’n cyd-fynd â’r datganiad hwn

## Atodiad A

Mae’r ffynonellau data a ddefnyddiwyd ar gyfer y datganiad hwn hefyd yn cynnwys rhai mathau penodol o ddarpariaeth nad ydynt yn perthyn i’r diffiniad o addysg drydyddol. Mae’r ffigur isod yn dangos cyfran y dysgwyr a gamodd ymlaen o Flwyddyn 11 i’r mathau hyn o ddarpariaeth. Ni chamodd y dysgwyr hyn ymlaen i addysg drydyddol ac nid ydynt wedi’u cynnwys yn y prif ddadansoddiad.

**Fe waeth rhwng 3% a 4% o ddysgwyr gamu ymlaen yn nodweddiadol i ddarpariaeth Hyfforddeiaethau / Twf Swyddi Cymru+**

Ffigur 7: Cyfran y dysgwyr a gamodd ymlaen i fathau eraill o ddarpariaeth, yn ôl blwyddyn academaidd, rhwng mis Awst 2014 a mis Tachwedd 2025




Disgrifiad: Mae 1% arall o ddysgwyr yn symud ymlaen yn gyson i ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgol arbennig a gynhelir bob blwyddyn.

[p]: Dros dro.

[Nodyn 1] Ni ddangosir ffigyrau hyfforddeiaethau / Twf Swyddi Cymru+ ar gyfer 2014/15 a 2015/16 i osgoi datgelu pwy yw dysgwyr unigol, yn seiliedig ar niferoedd isel.

## Ansawdd a methodoleg

### Ffynonellau data

Y ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn yw:

- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD): casgliad electronig o ddata ar lefel disgyblion ac ysgolion a ddarperir i Lywodraeth Cymru gan yr holl ysgolion cynradd, canol, uwchradd, meithrin ac arbennig yn y sector a gynhelir. Cesglir y data yn seiliedig ar ddyddiad cyfrifiad ym mis Ionawr.
- Casgliad Data Ôl-16: bob hydref, mae'n ofynnol i'r holl ysgolion a gynhelir sydd â chweched dosbarth adrodd ar yr holl raglenni a gweithgareddau dysgu a gyflawnwyd gan ddisgyblion yn y flwyddyn academaidd flaenorol.
- Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR): data ar addysg bellach, dysgu seiliedig-ar-waith a dysgu oedolion yn y gymuned. Fe'i cesglir ar sail 'dreigl' trwy gydol y flwyddyn gyda dyddiadau cau ystadegol rheolaidd. Hon yw'r ffynhonnell ystadegau swyddogol yng Nghymru ar gyfer y sectorau hyn.
- Casgliad data gwybodaeth reoli wythnosol am bresenoldeb mewn ysgolion: fe ddechreuwyd casglu data wythnosol a echdynnir yn uniongyrchol o systemau gwybodaeth reoli ysgolion yn hydref 2020. Cesglir y data gan yr holl ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd ac arbennig a gynhelir ac unrhyw unedau cyfeirio disgyblion sydd â systemau gwybodaeth reoli o'r fath ac sy'n mynd ati'n rheolaidd i gofnodi eu gwybodaeth yn electronig.
- Data Addysg wedi'u Paru (MED): yn cysylltu dynodydd dienw cyffredin â chofnodion o gasgliadau data addysg lluosog, fel y gellid cysylltu'r gwahanol setiau data i ddibenion ystadegol ac ymchwil.

### Methodoleg

Y prif newidiadau i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad a gyhoeddwyd yn flaenorol yn erthygl ystadegol Llywodraeth Cymru 'Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws (Covid-19): Awst 2020 i Orffennaf 2021' yw:

- Ar gyfer blynyddoedd academaidd 2022/23 a blaenorol, defnyddir setiau data terfynol i adnabod cyrchfannau addysg drydyddol yn hytrach na setiau data yn ystod y flwyddyn a allai newid ymhellach.
- Defnyddir y Casgliad Data Ôl-16 ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion hyd y gellir, gan ddarparu gwybodaeth am y math o raglen ddysgu sy'n cael ei hastudio. Defnyddir gwybodaeth reoli wythnosol am bresenoldeb mewn ysgolion ar gyfer 2025/26 gan nad yw'r Casgliad Data Ôl-16 ar gael eto.
- Prentisiaethau yw'r unig fath o ddysgu seiliedig ar waith sydd wedi'i gynnwys.

Mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud ers y fersiwn flaenorol o'r cyhoeddiad hwn:

- Mae data ar gyfer 2023/24 a 2024/25 bellach yn derfynol.
- Mae data dros dro ar gyfer 2025/26 wedi'i gynnwys.
- Mae data ar gyfer 2014/15 i 2016/17 wedi cael ei gynnwys i ddarparu mwy o gyd-destun hanesyddol.
- Mae'r diffiniad o addysg drydyddol wedi newid, fel a ddisgrifir ar dudalen 1 ac isod.
- Defnyddir MED bellach i gysylltu cofnodion Blwyddyn 11 ac addysg drydyddol, lle y bo ar gael.

Diffinnir carfannau blwyddyn 11 fel unrhyw ddysgwr ar y gofrestr mewn ysgol uwchradd, ganol neu arbennig a gynhelir yng Nghymru ar ddyddiad y cyfrifiad CYBLD.

Ar gyfer bob blwyddyn ac eithrio 2025/26, defnyddir y Casgliad Data Ôl-16 a LLWR i adnabod rhaglenni astudio addysg drydyddol a oedd yn weithredol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Mae rhaglenni a gynhwyswyd yn y dadansoddiad hwn yn cynnwys y dysgu canlynol a gyllidir yn gyhoeddus sydd bellach yn cael ei gyllido a'i reoleiddio gan Medr:

- Unrhyw raglen astudio yn y chweched dosbarth mewn ysgolion.
- Addysg bellach a wneir mewn colegau addysg bellach.
- Prentisiaethau a wnaed mewn colegau addysg bellach neu ddarparwyr hyfforddiant preifat.

Ar gyfer 2025/26, defnyddir data LLWR fel uchod. Nid yw'r Casgliad Data Ol-16 ar gael ar hyn o bryd, felly defnyddir gwybodaeth reoli wythnosol am bresenoldeb mewn ysgolion i adnabod dysgwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgolion. Ceir nifer o gyfyngiadau o ganlyniad i ddefnyddio'r wybodaeth reoli hon.

Yn Ffigur 4, mae cyfran y dysgwyr a symudodd ymlaen i astudio ar bob lefel yn 2025/26 wedi'i hamcangyfrif yn rhannol, gan nad yw'r wybodaeth reoli wythnosol am bresenoldeb yn yr ysgol yn cynnwys gwybodaeth am y lefel astudio. Caiff cyfrannau 2024/25 o ddysgwyr y chweched dosbarth yn ôl lefel eu cymhwyso i garfan y chweched dosbarth yn 2025/26. Caiff y ffigurau amcangyfrifedig hyn wedyn eu cyfuno â data gwirioneddol, dros dro, o'r LLWR o ddysgwyr mewn colegau AB a phrentisiaid.

Mae'r tabl isod yn rhoi cymhariaeth rhwng yr wybodaeth reoli wythnosol am bresenoldeb yn yr ysgol a'r Casgliad Data Ôl-16, o ran y gyfradd gyffredinol o ddilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol.

Ffigur 8: Cyfran y rhai ym Mlwyddyn 11 a aeth ymlaen i addysg drydyddol, yn ôl ffynhonnell data a blwyddyn academaidd, rhwng mis Awst 2021 a mis Gorffennaf 2025

| Blwyddyn academaidd | Y gyfran sy'n symud ymlaen (ffigurau terfynol, yn seiliedig ar Gasgliad Data Ôl-16) | Y gyfran sy'n symud ymlaen (yn seiliedig ar wybodaeth am bresenoldeb yn yr ysgol) | Y Gwahaniaeth (Cyfran Casgliad Data Ôl-16 minws cyfran yr wybodaeth reoli) |
|---|---:|---:|---:|
| 2021/22 | 86.6 | 86.4 | +0.3 |
| 2022/23 | 86.0 | 85.6 | +0.4 |
| 2023/24 | 84.9 | 84.6 | +0.2 |
| 2024/25 | 85.1 | 85.6 | -0.5 |

Wedyn mae carfannau Blwyddyn 11 yn cael eu cysylltu â'r amryw setiau data sy'n cynnwys gwybodaeth am addysg drydyddol gan ddefnyddio MED. Dim ond y blynyddoedd hyd at a chan gynnwys blwyddyn academaidd 2023/24 a gwmpesir gan MED ar hyn o bryd. Mae cofnodion ar gyfer blynyddoedd diweddarach yn cael eu cysylltu i ddechrau ar y Rhif Disgybl Unigryw a Rhifau Dysgwyr Unigryw, gyda chysylltedd pellach ar gofnodion heb eu paru yn seiliedig ar enwau a dyddiadau geni.

## Cyfyngiadau

Mae ffigyrau ar gyfer 2025/26 yn rhai dros dro gan eu bod yn seiliedig ar ddata yn ystod y flwyddyn. Daeth rhaglenni astudio addysg bellach a phrentisiaeth o ddyddiad cau LLWR ym mis Chwefror 2026. Efallai na fydd y data'n rhoi adlewyrchiad llawn o'r holl ddysgu hyd at yr adeg y cymerwyd y data ac fe allai newid yn y dyfodol. Nid yw data ar gyfer gweddill y flwyddyn academaidd wedi ei gynnwys, a allai effeithio ar ystadegau ar gyfer 2025/26. Gall nifer gymharol fach o ddysgwyr ddechrau eu rhaglen astudio drydyddol gyntaf ar ôl mis Ionawr, prentisiaid gan amlaf.

Ar gyfer 2025/26, mae gwybodaeth reoli wythnosol am bresenoldeb mewn ysgolion ar gael hyd at 21 Tachwedd 2025. Mae ffigyrau ar gyfer 2025/26 yn rhai dros dro hefyd gan y bydd y Casgliad Data Ôl-16 yn disodli'r wybodaeth reoli wythnosol am bresenoldeb mewn ysgolion unwaith y bydd ar gael.

Nid yw'r wybodaeth reoli wythnosol am bresenoldeb mewn ysgolion wedi bod trwy'r un lefel o broses sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol achrededig ac fe allai'r data gael ei ddiwygio yn y dyfodol. Nid yw'n darparu unrhyw wybodaeth am raglen astudio'r dysgwr.

Nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys cyrchfannau trydyddol mewn ysgolion annibynnol, darparwyr dysgu annibynnol neu arbenigol eraill, dysgu oedolion yn y gymuned (gan gynnwys dysgu a ddarperir gan golegau), addysg drydyddol y tu allan i Gymru nac unrhyw ddarpariaeth EOTAS (Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol) ôl-16 arall.

Nid yw dysgu ôl-16 mewn ysgolion arbennig a gynhelir a rhaglenni cyflogadwyedd Twf Swyddi Cymru+ / Hyfforddeiaethau Llywodraeth Cymru'n cael eu cynnwys mwyach yn y diffiniad o addysg drydyddol a gyflwynir yma. Mae dadansoddiad o ddilyniant o Flwyddyn 11 i'r mathau hyn o ddarpariaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Mae'n debygol yr effeithir ar gyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol mewn awdurdodau lleol sy'n ffinio â Lloegr (Sir y Fflint, Wrecsam, Powys, Sir Fynwy).

## Diffiniadau

Mae'r cyrchfannau addysg drydyddol yr adroddir arnynt yn y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar y rhaglen astudio gyntaf a wnaed gan y dysgwr. Wrth adnabod rhaglen gyntaf dysgwr caiff y rhaglenni canlynol eu blaenoriaethu dros raglenni AB eraill: Safon UG, Safon U2, galwedigaethol a phrentisiaethau. Y rhaglenni mwyaf cyffredin y cânt eu blaenoriaethu drostynt yw cymwysterau TGAU sy'n aml yn cael eu cymryd fel cyrsiau atodol.

Dim ond cofrestriad i'r flwyddyn academaidd yn union ar ôl Blwyddyn 11 a gynhwysir. Nid yw dysgwyr a ddechreuodd addysg drydyddol mewn blwyddyn academaidd hwyrach yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

Lle defnyddir gwybodaeth reoli wythnosol am bresenoldeb mewn ysgolion, ystyrir bod dysgwyr yn dal wedi eu cofrestru mewn addysg drydyddol os oes ganddynt gofnod presenoldeb neu absenoldeb awdurdodedig o fewn 2 wythnos i 21 Tachwedd 2025, y dyddiad diweddaraf yr oedd data ar gael ar ei gyfer ar yr adeg y cynhyrchwyd y dadansoddiad hwn.

Cymerir y set ddata presenoldeb mewn ysgolion yn uniongyrchol o Systemau Gwybodaeth Reoli ysgolion. Mewn rhai achosion mae dysgwyr i'w gweld fel pe bai eu cofrestriad wedi cael ei dreiglo'n awtomatig o Flwyddyn 11 i mewn i Flwyddyn 12 pan nad felly yr oedd hi. O ganlyniad, nid ydym yn ystyried bod dysgwr heb ei restru fel un wedi'i gofrestru os nad oedd wedi'i gofnodi fel dysgwr a oedd naill ai'n mynychu neu ag absenoldeb awdurdodedig ym Mlwyddyn 12.

Mae'r holl ddadansoddi yn ôl nodweddion yn seiliedig ar y rhai a gofnodwyd ar gyfer y dysgwr fel rhan o'i gofnod CYBLD Blwyddyn 11.

Mae degradd amddifadedd cymdogaeth gartref y dysgwr yn seiliedig ar y prif fynegai ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Mae data ar gyfer blynyddoedd academaidd 2014/15 i 2018/19 yn seiliedig ar MALIC 2014, mae data 2019/20 i 2024/25 yn seiliedig ar MALIC 2019 ac mae data 2025/26 yn seiliedig ar MALIC 2025.

Mae cyrchfannau trydyddol 'safon UG' yma'n cynnwys rhaglenni safon UG a rhaglenni cyfwerth â safon UG. Mae rhaglenni cyfwerth â safon UG yn cynnwys cymysgedd o gymwysterau safon UG a galwedigaethol, er enghraifft 2 gymhwyster safon UG a Thystysgrif Genedlaethol BTEC.

## Talgrynnu a pheidio â dangos

Mae'r holl ffigyrau wedi eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Ni ddangosir niferoedd sy'n llai na 5. Mae canrannau wedi eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Ni ddangosir canrannau sy'n seiliedig ar enwadur sy'n llai na 23.

Cyfrifir gwahaniaethau rhwng gwerthoedd gan ddefnyddio gwerthoedd heb eu talgrynnu, felly gall fod anghysonderau bychain pan gânt eu cymharu â'r ffigyrau wedi eu talgrynnu.

## Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n pennu'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai'r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Caiff ein holl ystadegau ni eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Caiff y rhain eu nodi yn ein Datganiad Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mae croeso i chi gysylltu â ni yn uniongyrchol gydag unrhyw sylwadau ynglŷn â sut yr ydym yn cyrraedd y safonau hyn.

Fel arall, gallwch gysylltu ag OSR trwy anfon neges e-bost i regulation@statistics.gov.uk neu drwy wefan OSR.

## Dibynadwyedd

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn unol â'n Datganiad Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau a'n polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

## Ansawdd

Mae'r ystadegau yn y datganiad hwn wedi cael eu cynhyrchu i raddau helaeth o fersiynau terfynol o ffynonellau data gweinyddol cydnabyddedig a ddefnyddir i gynhyrchu ystadegau swyddogol ar addysg yng Nghymru. Ategwyd y rhain gan wybodaeth reoli wythnosol am bresenoldeb mewn ysgolion i ddarparu'r amcangyfrifon diweddaraf o ddilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol (ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26). Mae cyfyngiadau defnyddio'r wybodaeth reoli hon wedi cael eu hegluro ac mae'r amcangyfrifon hyn wedi cael eu nodi fel rhai dros dro.

## Gwerth

Mae'r ystadegau swyddogol hyn sydd wrthi'n cael eu datblygu wedi eu bwriadu i gydymffurfio â'r Cod hyd y bo'n bosibl. Fe'u cynhyrchwyd yn gyflym mewn ymateb i alwadau am ddadansoddiad gwell o gyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru.

Fe'u labelir yn 'ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu' i brofi a ydynt yn diwallu anghenion defnyddwyr i adlewyrchu'r ffaith nad yw'r fethodoleg yn benodedig ac y gellid ei datblygu ymhellach yn seiliedig ar adborth defnyddwyr. Byddem yn croesawu unrhyw sylw am ddefnyddioldeb yr ystadegau hyn. Cysylltwch ag ystadegau@medr.cymru.

## Ystadegau cysylltiedig

Arolwg blynyddol o rai sy'n gadael yr ysgol o Flynyddoedd 11, 12 ac 13 yw'r Arolwg hynt disgyblion, a gyhoeddir gan Gyrfa Cymru. Hynt disgybl yw ei weithgarwch hysbys ar 31 Hydref ar ôl iddo adael y grŵp blwyddyn dan sylw. Mae Gyrfa Cymru yn casglu gwybodaeth am hynt disgyblion drwy ddefnyddio setiau data gweinyddol addysg, data gan sefydliadau partner, a chanlyniadau a hunan-adroddir gan ddisgyblion. Yn ogystal â chyrchfannau addysgol, mae arolwg Gyrfa Cymru hefyd yn adrodd am gyfran y rhai sy'n gadael yr ysgol sydd wedi mynd i gyflogaeth, nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a'r rhai sydd wedi gadael Cymru. Gan fod gwahaniaethau rhwng ystadegau Medr ac arolwg Gyrfa Cymru o ran y modd y cesglir data, gallai'r ffigurau yn y naill gyhoeddiad a'r llall amrywio.

Mae Addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol: Awst 2024 i Orffennaf 2025 yn darparu ystadegau ar nifer y dysgwyr a'r rhaglenni a'r gweithgareddau a gyflawnir mewn colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a darpariaeth dysgu yn y gymuned gan awdurdodau lleol.

Mae Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2025, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn darparu ystadegau ar ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

## Gwynodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir anfon adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ddata pellach drwy e-bost i: ystadegau@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**